Sut i ddefnyddio Canllaw Codi Arian Ar-lein Localgiving

Cyflwyniad i'r canllaw

Mae'r canllaw yma wedi cael ei gynllunio i helpu sefydliadau ledled Cymru i elwa o godi arian ar-lein a defnyddio hynny i greu ffrwd incwm newydd. Mae'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr a thasgau ar gyfer achosion, i weithio drwyddyn nhw'n annibynnol neu gyda chefnogaeth. Gall y ddogfen gyfarwyddyd yma gynorthwyo gyda hyn a hefyd bydd o ddefnydd i sefydliadau cefnogi'r trydydd sector sy'n dymuno cyflwyno'r adnodd hwn yn rhan o'u rhwydwaith. Mae croeso i chi rannu'r canllaw fel sy'n briodol.

Mae'r canllaw wedi cael ei ddatblygu gan Localgiving, sy'n fudiad nid-er-elw ledled y DU. Mae Localgiving yn gweithredu platfform codi arian ar-lein sy'n arbenigo mewn cefnogi sefydliadau bach a chanolig. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar sesiynau hyfforddi y mae Localgiving wedi'u darparu i fwy na 350 o sefydliadau elusennol ar draws y 22 o siroedd yng Nghymru. Mae'r gefnogaeth hon wedi arwain at 93% o gyfranogwyr yn gweld effaith bositif ar eu codi arian ar-lein ac yn teimlo'n hyderus am y ffordd y bydd yn llwyddo.

Mae Localgiving yn lansio'r adnodd yma fel rhan o Wythnos Elusennau Bach 2020 ar ôl cael gwahoddiad gan yr FSI i arwain Diwrnod Codi Arian ar 18fed Mehefin. Cafodd y canllaw ei gyllido'n wreiddiol gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Mae wedi'i gymeradwyo gan y WCVA, rhwydwaith CVC a'r FSI.

Cael y canllaw

Mae fersiwn rhyngweithiol o'r canllaw ar gael ac mae'n berffaith ar gyfer edrych drwyddo a'i lenwi ar gyfrifiadur. Hefyd mae fersiwn statig o'r canllaw ar gael, sy'n berffaith ar gyfer ei argraffu er mwyn rhannu copi papur o'r adnodd neu i'w lenwi gyda llaw eich hun os yw'n well gennych chi hynny. Mae pob fersiwn o'r canllaw (gan gynnwys y fersiynau Cymraeg) ar gael drwy borth ar-lein y WCVA neu wefan Localgiving yn yr adran 'Adnoddau i'w lawrlwytho' yn: training.localgiving.org/wales

Tudalennau enghreifftiol o'r canllaw





Tudalennau arbennig

Mae dolenni ar y dudalen gynnwys a fydd yn mynd â chi i bob adran o'r canllaw a phob tasg gysylltiedig os cliciwch chi ar enw'r dudalen. Efallai y byddwch yn dymuno canolbwyntio ar un adran neu weithio eich ffordd drwy'r canllaw cyfan.

Mae'r cynllun wedi cael ei greu er mwyn galluogi i chi argraffu pob adran fel taflen waith unigol os ydych yn ffafrio hynny. Gellir argraffu pob tudalen o gyngor gyda'r dasg gyfatebol ar y cefn, gan greu taflen waith A4 ar gyfer pob pwnc. Mae'n bosib naill ai argraffu'r tasgau i'w llenwi gyda llaw, neu eu llenwi'n ddigidol.

Canllaw Cymraeg

Mae'r canllaw ar gael hefyd yn y Gymraeg i gyd. Dyma rai tudalennau enghreifftiol:





Ychwanegu testun at y tasgau

Acrobat Reader yw'r opsiwn a argymhellir fwyaf ar gyfer cwblhau'r tasgau ym mhob adran. Dyma'r gwahanol ddulliau sydd ar gael ar gyfer ychwanegu testun at y PDF:

1. Acrobat Reader (PC a Mac)
Mae Adobe Acrobat Reader ar gael i'w lawrlwytho am ddim ac mae'n gweithio ar unrhyw fath o gyfrifiadur. Dyma safon y diwydiant a dylai unrhyw un sy'n defnyddio PDF fod â hwn eisoes. Bydd y rhaglen hon yn galluogi i'r tasgau gael eu llenwi ac wedyn gallwch arbed eich fersiwn eich hun o'r ddogfen.

2. Google Chrome (Mac / angen profi PC ond yn hyderus)
Gallwch agor y PDF ym mhorwr Google Chrome a bydd hyn yn galluogi i chi ddefnyddio holl nodweddion y PDF rhyngweithiol a llenwi'r tasgau. Ar ôl i chi orffen, gallwch glicio ar y botwm argraffu yn y gornel dde uchaf ac wedyn dewis 'Save to PDF' yn y ffenestr godi. Bydd hyn wedyn yn newid eich holl newidiadau fel PDF newydd. Gallwch wedyn agor eich PDF wedi'i chadw yn ôl yn Chrome i barhau neu wneud diwygiadau.

3. Google Drive - Lumin PDF (PC / Mac)
Os ydych chi'n defnyddio Google Drive efallai bod gennych chi Lumin PDF eisoes gan fod Google yn argymell ychwanegiad trydydd parti. Os felly, bydd hyn yn gweithio yr un fath â'r cwestiynau uchod ac yn galluogi rhyngweithgarwch.

4. Preview (Mac)
Gallwch ddefnyddio'r holl nodweddion yn Preview ar Mac ac wedyn dim ond arbed fersiwn newydd o'r ddogfen sydd ei angen, ar ôl i chi ysgrifennu eich atebion yn y tasgau.

Diolch i chi am edrych ar yr adnodd yma a phob dymuniad da gyda'ch camau nesaf! Os hoffech chi edrych ar weithio gyda Localgiving a chael cefnogaeth bellach, cofiwch gysylltu:

localgiving.org
0300 111 2340
help@localgiving.org
@Localgiving